Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau Arbedion Effeithlonrwydd—Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Blwyddyn archwilio: 2020–21

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3268A2022

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Yr hyn a ganfuwyd gennym 5

Argymhellion 8

Adroddiad manwl

Er bod cynlluniau ar lefel uchel ar gyfer arbedion ariannol sy'n rhesymol ac yn gytbwys iawn, mae risg y gallai'r Bwrdd Iechyd weld diffyg cynyddol o'r naill flwyddyn i'r llall 10

Nid yw'r dull o gyflawni effeithlonrwydd y gellir ei droi'n arian yn ddigon cryf ar hyn o bryd 16

Er bod goruchwyliaeth resymol o ran cynllunio a chyflawni arbedion, mae angen rheoli'r risgiau ariannol yn ystod cam cynharach 21

Atodiadau

Atodiad 1—Ymateb y sefydliad 24

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes gweddol dda o ran cynllunio a chyflawni o gymharu â chynlluniau arbed (h.y., gwariant o fewn dyraniad Llywodraeth Cymru). Tanlinellir hyn gan ei berfformiad arbedion blaenorol dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, sef 2017–18 hyd 2021–22. Gwelodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (2022–2025) ddychweliad at y broses gynllunio tair blynedd yn dilyn Fframwaith Gweithredu Blynyddol blwyddyn a oedd yn weithredol ar gyfer 2021–22. Adferwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar y rhagdybiaeth y bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fodloni ei ddyletswyddau ariannol statudol ac yn cyflawni balans ariannol ar sail treigl tair blynedd.

2 Dros y blynyddoedd diwethaf, cyflawnwyd arbedion mewn cyfnod lle'r oedd galw a chostau'n cynyddu, ond nid oedd dyraniadau refeniw yn cynyddu ar yr un raddfa bob amser. Hefyd, mae'r pandemig wedi creu mwy o ansicrwydd, gyda chanlyniadau ariannol sylweddol yn y tymor byr a'r hirdymor. Fel cyrff eraill yng Nghymru, blaenoriaethodd y Bwrdd Iechyd ei ymateb i bandemig COVID-19. Effeithiodd hyn yn uniongyrchol ar ei allu i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ac arbedion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Arweiniodd hyn yn y pen draw at dangyflawni targedau arbedion cychwynnol uchelgeisiol o £33 miliwn yn 2020–21. Yn 2020–21 a 2021–22, diwygiwyd y targedau arbedion i £9.4 miliwn ac £16.6 miliwn yn y drefn honno a chyflawnwyd £10.9 miliwn o arbedion yn 2020–21 ac £16.6 miliwn yn 2021–22. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, nodwyd cynlluniau arbed cychwynnol am £26.2 miliwn gyda chynlluniau osgoi cost ychwanegol am £19 miliwn.

3 Mae'r her ariannol strategol yn parhau i fod mor fawr ag erioed. Mae'r sector iechyd cyfan yn parhau i gael trafferth â phwysau sylweddol ar wasanaethau mewn gofal heb ei drefnu, ac ôl-groniadau rhestrau aros sy'n cynyddu. Ar ôl agor pedwar mis yn gynnar, mae Ysbyty Athrofaol y Faenor yn rhan annatod o Raglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae gwasanaethau ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol sy'n ei gwneud yn anodd ateb y galw a chyflawni rhaglen arbedion realistig ond uchelgeisiol yn y cyd-destun hwnnw yn y pen draw. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyllid ychwanegol, ac mae pwysau costau arfaethedig ac annisgwyl, megis costau ynni cynyddol, yn gwneud y sefyllfa ariannol bresennol yn anoddach. Ond nid pwysau costau tymor byr presennol yn unig sy'n peri problem, mae cynnydd yng ngalw demograffig y 'boblogaeth sy'n heneiddio' yn parhau i fod yn risg y bydd angen ateb ariannol ar ei gyfer yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Felly, mae hyd yn oed yn fwy allweddol fod cynlluniau arbed yn creu effeithlonrwydd ariannol ac effeithlonrwydd yn y gwasanaethau ac yn atal y Bwrdd Iechyd rhag mynd i ddiffyg ariannol dyfnach a chylchol.

4 Er bod gan y Bwrdd Iechyd derfyn adnoddau refeniw sylweddol (£1,576 miliwn[1]), gall cyflawni hyd yn oed canran gymharol fach o arbedion fod yn heriol. Mae hyn yn broblem benodol pan fo rhywfaint o'r cyllid yn a ddyrennir 'wedi ei ymrwymo ymlaen llaw', megis ar gyfer llawer o'r costau gofal sylfaenol.

5 Mae rhagdybiaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–2025 y Bwrdd Iechyd yn dangos y bydd angen arbed £68 miliwn dros y tair blynedd nesaf ac y bydd angen cyflawni £51 miliwn mewn arbedion cylchol o hyn. Roedd rhagolwg ariannol refeniw 2022/23 i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn dynodi'n ffurfiol newid sylweddol yn safle'r Bwrdd Iechyd, gan adrodd diffyg posibl o oddeutu £49 miliwn oni fo gweithredu pellach. Mae'n datgan mai'r sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn, yn seiliedig ar y cynlluniau gweithredol presennol, fyddai ddiffyg ariannol rhwng £25 a £40 miliwn. Ym mis 7 2022–23, mae'r dasg o gyflawni arbedion yn parhau i fod oddi ar y trywydd iawn, a diffyg ariannol tebygol o £37 miliwn yw'r rhagolwg ariannol diwygiedig ar hyn o bryd.

6 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn â'r ddealltwriaeth mai nod trefniadau y Bwrdd Iechyd yw gwella sefydlogrwydd ariannol. Ystyriodd ein hadolygiad y trefniadau lefel uchel ar gyfer cynllunio, cyflawni, a monitro effeithlonrwydd ac arbedion. Ceisiodd yr adolygiad fynd i'r afael â'r cwestiwn canlynol: A yw'r Bwrdd Iechyd yn rhoi trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd?

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

7 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull rhesymol o nodi meysydd posibl ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd i lywio'r broses cynllunio ariannol strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull lefel uchel da ar gyfer cynllunio effeithlonrwydd, gan ddefnyddio amrywiaeth o adroddiadau meincnodi ac adroddiadau rhanddeiliaid mewnol ac allanol i greu crynodeb effeithlonrwydd. Yn briodol, mae hyn yn llywio nodau effeithlonrwydd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'n gadarnhaol ar y cyfan fod y Bwrdd Iechyd yn integreiddio ei ddull effeithlonrwydd yn ei raglenni Cynllun Tymor Canolig Integredig yn hytrach na rhaglen arbedion ar wahân yn unig. Mae ethos da ar lefel uwch ar y cyfan sy'n ceisio dull effeithlonrwydd sy'n cefnogi gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos ei fwriad i gyflawni effeithlonrwydd ariannol drwy ddull cytbwys o drawsnewid gwasanaethau a rhaglenni sy'n seiliedig ar werth ochr yn ochr ag arbedion tymor byr. Mae hyn yn well oherwydd y gall gorddibyniaeth ar arbed costau trafodaethol tymor byr ac afreolaidd effeithio'n andwyol ar y sefydlogrwydd ariannol tymor hwy. Serch hynny, mae methu â chyflawni arbedion eleni ynghyd â phwysau costau anarferol ychwanegol yn arwain at berfformiad ariannol sy'n gwaethygu. O ganlyniad i hynny, mae'n debygol y bydd angen cyfran uwch o fesurau lleihau costau tymor byr a rheoli costau ochr yn ochr

[1] Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Mis 7

â'i ddulliau effeithlonrwydd trawsnewidiol. Nid yw'n ddelfrydol, ond mae'n angenrheidiol.

9 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes da o sicrhau arbedion, sydd wedi ei helpu i gyflawni balans ariannol yn y blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Pe byddai diffyg ariannol 'tebygol o £37 miliwn' yn cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf ochr yn ochr â diffyg sylfaenol cynyddol, byddai hynny'n gwneud adferiad ariannol yn llawer anoddach. Os yw hyn yn wir, efallai y bydd angen i'r Bwrdd fabwysiadu dull atebolrwydd ac adfer ariannol strategol mwy ffurfiol os nad yw ei sefyllfa'n gwella.

10 Mae cyfran sylweddol (45%) o gyfanswm yr arbedion sydd eu hangen yn gysylltiedig â thâl, ond nid oedd y cynlluniau arbed costau gweithredol ar waith yn ddigon cynnar ar gyfer y rhain. Mae'n ymddangos bod hyn wedi cyfaddawdu ar yr hyn a gyflawnir. Hefyd, mae'n bosibl na fydd cyflawni effeithlonrwydd ar sail trawsnewid gwasanaethau yn rhyddhau'r cwantwm gofynnol o arbedion ar gyfer yr elw net fel y bwriadwyd. Hyd yn oed os byddant, mae'n bosibl y caiff arbedion trawsnewidiol eu gwireddu'n arafach na mesurau osgoi/rheoli costau tymor byr. Mae angen mwy o arian wrth gefn ar gyfer tangyflawni, a phwyslais cryfach ar elfen rhyddhau arian rhaglenni trawsnewid Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Mae angen ymgysylltu ac atebolrwydd cryfach ar lefel gwasanaeth hefyd i sicrhau y cyflawnir arbedion yn well wrth symud ymlaen.

11 Mae gwasanaethau'r bwrdd iechyd wedi bod yn cyflawni arbedion yn rhy araf. Mae'n amlwg bod arweinwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o'u hatebolrwydd a'r arbedion y gofynnir amdanynt, ond gwnaethant nodi bod pwysau a straen gwasanaeth eithriadol ar y gweithlu wedi effeithio ar y gallu i roi trefniadau cyflawni arbedion ar waith eleni. Mae'r dull gweithredu hwn wedi rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa sydd bellach yn ei orfodi i orgyflawni yn ystod misoedd diwethaf y flwyddyn. Mabwysiadodd y Tîm Gweithredol ddull 'trawsnewid' ym mis Mai i helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ond cyfyngedig y bu'r effaith ar y broses gyffredinol o gyflawni arbedion hyd yma.

12 Gellir cyflawni mwy trwy gydlynu gwaith galluogwyr y sefydliad yn well. Yn gyffredinol, mae'r dull partner busnes ariannol yn cefnogi gwelliant ariannol yn briodol, gan ddarparu cefnogaeth, adroddiadau a chyngor. Cefnogi gwasanaethau i wella yw gwaith y tîm gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, ond mae angen pwyslais cryfach ar y graddau y mae'r buddsoddiad yn y tîm yn cyflawni canlyniadau gwell a gostyngiadau mewn costau. Gellir gwneud mwy i gydlynu'n well waith 'gallu' arloesedd a gwella presennol y Bwrdd Iechyd hefyd drwy Swyddfa Rheoli'r Rhaglen er mwyn cyflawni gwell effeithlonrwydd ariannol.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynegi ei risgiau ariannol yn agored, ond nid yw'r camau y mae wedi eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny wedi bod yn ddigon effeithiol. Wrth ystyried y cynlluniau arbed yn unig, dosbarthwyd 78% o'i raglenni arbed fel rhai oren ym mis Ebrill. Erbyn mis Awst, roedd 76% o'r rhaglenni arbed yn parhau i fod yn oren. Ar adeg yr adroddiad diweddaraf, nid oedd yr un ohonynt wedi eu

dosbarthu'n 'goch', er bod y disgwyliadau arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi gostwng o £26.2 miliwn i amcangyfrif o £17 miliwn, sy'n dynodi methu â chyflawni.

14 Yn gyffredinol, mae trefniadau monitro y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n briodol ar gynlluniau effeithlonrwydd strategol. Fodd bynnag, mae angen iddo ganolbwyntio ei oruchwyliaeth ar y risgiau i gyflawni cynlluniau yn weithredol hefyd a deall yn well effaith cynlluniau effeithlonrwydd. Ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn, datganodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn er nad oedd targedau arbedion cynnar cymharol fach hyd yn oed yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn awgrymu bod angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei ragolwg yn fwy rheolaidd er mwyn cynnig ymdeimlad o frys pan fo'r sefyllfa ariannol yn gwaethygu, os bydd hynny'n digwydd.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Noda'r tabl isod yr argymhellion o'r adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
|---|
| **Arbedion ariannol a chynllunio effeithlonrwydd**<br>A1 Edrych ar gynlluniau effeithlonrwydd o'r newydd i ailasesu eu potensial realistig o ryddhau arian cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Dylid ailflaenoriaethu cynlluniau yn ôl eu potensial i ryddhau arian. |
| **Trefniadau cyflawni ariannol**<br>A2 Erbyn diwedd mis Ionawr 2023, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn paratoi'n gynharach arbedion lefel defnyddio/gwasanaeth i gyflawni rhaglenni effeithlonrwydd allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yn ddelfrydol, dylai'r dull cynllunio arbedion fod yn barhaus wrth symud ymlaen, er mwyn osgoi unrhyw fylchau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.<br>A3 Erbyn diwedd mis Ionawr 2023, sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth gweithredol cynhwysfawr ac effeithiol â'r tîm sy'n paratoi'r crynodeb fel y gellir trosi'r cyfleoedd a nodir yn y crynodeb yn gynlluniau arbed y gellir eu cyflawni.<br>A4 Erbyn mis Chwefror 2023, cysoni'r effeithlonrwydd a'r arbedion a ddisgwylir yn y rhaglenni gwella Cynllun Tymor Canolig Integredig â rhaglen waith sy'n fwy cydgysylltiedig gan ddefnyddio'r galluogwyr allweddol gan gynnwys Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, y Tîm Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, y tîm Dyfodol Clinigol ac ymchwil a datblygu ehangach. |
| **Monitro a goruchwylio ariannol**<br>A5 Erbyn mis Chwefror 2023, cryfhau'r cynlluniau craffu ar arbedion yr asesir eu risgiau fel rhai sy'n gysylltiedig â chynlluniau oren neu goch (yn y dyfodol). Hefyd:<br>• sicrhau y cytunir ar dargedau arbedion ariannol ac amserlenni a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd;<br>• cryfhau effeithiolrwydd ymyrraeth gan reolwyr pan fo cynlluniau effeithlonrwydd oddi ar y trywydd iawn.<br>A6 Diweddaru sefyllfa y rhagolwg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn fwy rheolaidd ar sail lefel newidiol y risg i'r cyllid, yn ogystal â sefyllfa ariannol y flwyddyn hyd yma. |

**Argymhellion**

| | |
|---|---|
| A7 | Erbyn mis Mawrth 2023, sicrhau bod eglurder o ran rhannu risgiau ariannol gweithredol (er enghraifft pan fo cyfrifoldebau cyfarwyddiaeth weithredol dros gyflawni arbedion a chyfrifoldebau rhaglen Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyflawni effeithlonrwydd yn gorgyffwrdd). |
| A8 | Erbyn mis Mawrth 2023, cryfhau'r defnydd o offer rheoli gweledol, gan gynnwys tracwyr trawsnewid gwasanaethau, tracwyr arbed a thracwyr sy'n gysylltiedig â risgiau ar gyfer pob rhaglen. Mae angen cyfleu'r wybodaeth perfformiad hon i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er mwyn cynyddu ymatebolrwydd. |
| A9 | Erbyn diwedd Ionawr 2023, rhoi dulliau cryfach ar waith i fonitro'r arbedion a ddefnyddir/cyflawnir er mwyn deall yn well lle mae gwelliannau i wasanaethau yn cyflawni'r effeithlonrwydd angenrheidiol a'r gwelliant ariannol, a lle nad ydynt yn gwneud hynny. Yn rhan o hyn, sicrhau bod camau unioni amserol ac effeithiol. |

# Adroddiad manwl

## Er bod cynlluniau ar lefel uchel ar gyfer arbedion ariannol sy’n rhesymol ac yn gytbwys iawn, mae risg y gallai’r Bwrdd Iechyd weld diffyg cynyddol o’r naill flwyddyn i’r llall

### Mae’r Bwrdd Iechyd yn gosod cynlluniau effeithlonrwydd uchelgeisiol lefel uchel ar sail trawsnewid ochr yn ochr â dulliau ‘rheoli’ costau mwy traddodiadol, ond mae angen mwy o arian wrth gefn ar gyfer unrhyw dangyflawniad

15 Mae’r Bwrdd Iechyd yn nodi ei ofynion arbedion bob blwyddyn yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae’n nodi’r hyn a ganlyn ar lefel uchel:

- y pwysau sy’n newid costau a’r risgiau, risgiau o ran gwasanaethau/galw lleol a thwf costau ehangach sy’n berthnasol ledled Cymru, megis costau ynni uwch;
- y gofynion arbedion rheolaidd ac afreolaidd dros bob un o dair blynedd y cynllun.

16 Oherwydd pwysau parhaus ar wasanaethau, mae’r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed arbedion uchelgeisiol o £26.2 miliwn ar gyfer 2022–23. Mae hefyd wedi ymrwymo i fesurau osgoi costau gwerth £19 miliwn yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ac i reoli pwysau costau newydd yn ystod y flwyddyn yn 2022–23. Mae’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi’n briodol feysydd i flaenoriaethu arbedion a bwriad.

17 Mae dull y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac arbedion ehangach yn y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio i raddau helaeth ar gyfran uchel o arbedion rheolaidd (**Arddangosyn 2**). Yn ystod ein hadolygiad, rhagwelai’r staff y bydd rhai arbedion rheolaidd yn cael eu cyflawni drwy drawsnewid gwasanaethau, drwy sbarduno cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau wrth iddo adfer yn sgil y pandemig. Mae strategaeth Glinigol a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn nodi rhaglen systematig i helpu i lunio’r gwelliannau hynny.

**Arddangosyn 2: Gofynion arbedion y Cynllun Tymor Canolig Integredig 3 blynedd**

| | 2022–23 (£ miliwn) | 2023–24 (£ miliwn) | 2024–25 (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| Arbedion rheolaidd | 18 | 15 | 18 |
| Arbedion afreolaidd | 8 | 4 | 5 |
| **Cyfanswm y gofyniad arbedion** | **26** | **19** | **23** |
| Canran yr arbedion rheolaidd | 69.2% | 78.9% | 78.2% |

Ffynhonnell: Cynllun Tymor Canolig Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwreiddio gofyniad effeithlonrwydd ac arbedion yn gadarnhaol yn y dyheadau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dylai'r math hwn o ddull helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac, mewn theori, helpu i leihau'r gofyniad bob blwyddyn i ddod o hyd i arbedion tymor byr ychwanegol i lenwi bylchau ariannol. Roedd trawsnewid ac effeithlonrwydd gwasanaethau yn dominyddu trafodaethau yn ystod cyfweliadau, sy'n adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei roi ar wasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn effeithlon yn ariannol.

19 Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn dod â risgiau hefyd. Mae cynlluniau arbed ar sail trawsnewid yn profi amser paratoi hir yn aml cyn y gwireddir effeithlonrwydd. Yn ogystal â hynny, gallai dulliau ar sail trawsnewid wella effeithlonrwydd gwasanaethau heb gyflawni gostyngiad yn yr elw net yn y pen draw. Er bod y dull trawsnewidiol hwn yn briodol ac yn angenrheidiol, nid yw'n ddigonol ar ei ben ei hun i gyflawni'r arbedion y gellir eu troi'n arian a fwriedir. Mae ymrwymo i'r dulliau tymor hwy hyn yn hanfodol ond gallent olygu bod angen i'r Bwrdd Iechyd gynllunio ar gyfer graddau helaethach na'r arbedion sydd eu hangen ar ddechrau unrhyw flwyddyn benodol. Byddai'r arian wrth gefn hwn yn caniatáu tangyflawniad ar rai cynlluniau ac yn helpu i gyfrannu at gadw gwariant Bwrdd Iechyd o fewn ei ddyraniad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i nodi a chynllunio meysydd arbedion drwy gydol y flwyddyn ariannol bresennol ac er nad oedd ganddo fanylion ar y dechrau, roedd yn ymddangos yn debygol iawn y byddai angen llawer o gynlluniau ychwanegol eleni i gyflawni targedau arbedion (**Argymhelliad 1**).


## Mae'r crynodeb yn cynnig dull da o nodi potensial effeithlonrwydd

20 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio gwybodaeth a dadansoddiad o sawl ffynhonnell i'w helpu i nodi'r cyfleoedd am arbedion ac i lunio cynlluniau arbed. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yn rheolaidd gyfleoedd a nodir mewn fframweithiau effeithlonrwydd cenedlaethol a lleol er mwyn chwilio am effeithlonrwydd ar sail

newid/trawsnewid gwasanaethau ac arbedion sy'n rhyddhau arian. Mae adran gynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd yn nodi potensial arbedion ac effeithlonrwydd yn weithredol, gan ddefnyddio meincnodau a deallusrwydd busnes (**Arddangosyn 3**), a chrynhoir hyn yn ei Chrynodeb.

21 Diweddarwyd y Crynodeb yn ddiweddar yn dilyn bwlch yn ystod y pandemig ac mae'n darparu rhestr cynhwysfawr a manwl o botensial arbedion ac effeithlonrwydd. Mae'n nodi blaenoriaethau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, yn darparu astudiaethau achos, canllawiau, a thystiolaeth ymchwil. Mae hefyd yn cysylltu ag adolygiadau effeithlonrwydd ymarferion clinigol annibynnol ehangach megis Getting It Right First Time (GIRFT). Mae adolygiadau GIRFT yn annibynnol ac fe'u harweinir yn glinigol, a allai helpu i sicrhau clinigwr perthnasol, cyfarwyddwr clinigol, a phryniant gan uwch-reolwr cwmni allanol ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen.

**Arddangosyn 3: ffynonellau data cenedlaethol a lleol sy'n hysbysu'r Crynodeb**




Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

22 Effeithlonrwydd sy'n gwella prosesau yw'r cyfleoedd arbedion a amlinellir yn y Crynodeb diwygiedig i raddau helaeth. Mae'n cynnwys cyfleoedd megis lleihau'r cyfnod aros cyfartalog er mwyn cyflawni gostyngiadau mewn gwelyau, lleihau apwyntiadau cleifion allanol dilynol diangen a chansladau. O ganlyniad i hynny, mae'n helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi gostyngiadau posibl mewn costau ac effeithlonrwydd staffio (megis lleihau'r angen am staff asiantaeth).


23 Ar y cyfan, mae Crynodeb y cyfleoedd effeithlonrwydd yn darparu sail dda ar gyfer hysbysu cyfleoedd am arbedion ac mae'n helpu i nodi pa is-adran neu wasanaeth sydd angen arwain y gwelliannau. Er bod y cyfleoedd hyn yn cael eu costio, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn blaenoriaethu nac yn tynnu sylw at y rhai sy'n fwy tebygol o gyflawni effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian, ac nid yw'n nodi pa gynlluniau sydd fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus (**Argymhelliad 1**). Mae angen gwneud rhagor o waith i droi syniadau am ymarferion gorau yn realiti gweithredol. Rydym hefyd yn nodi bod y mwyafrif o'r cynlluniau arbed yn y crynodeb yn rhai acíwt yn hytrach na phwyslais sylfaenol a chymunedol. Gallai hyn roi mwy o faich ar ran benodol o'r sefydliad sydd eisoes o dan bwysau dwys i gyflawni gwasanaethau yn amserol ac yn effeithiol.

## Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddechrau cynllunio ei ddulliau arbedion cyffredinol yn gynt

24 Fel y gall y Bwrdd Iechyd gyflawni cymaint o arbedion â phosibl yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, mae angen iddo ddechrau'r broses yn gynnar. Rydym yn cydnabod bod y pandemig yn parhau i effeithio ar wasanaethau yn sylweddol yn ystod gaeaf 2021–22, fodd bynnag, ni cheisiodd y cynllun mis ar ôl mis sydd â'r nod o sicrhau arbedion gyflawni fawr ddim yn ystod Chwarter cyntaf 2022–23. Atgyfnerthodd ymatebion cyfweledigion y pwynt hwn yn ystod ein gwaith maes ac roeddent yn cynnwys amrywiaeth o sylwadau yn dweud nad oedd y cynlluniau '... yn gwbl barod eto'. Gwaethygwyd hyn gan oediad ychwanegol mewn arbedion a dangyflawnwyd o fis Gorffennaf i fis Medi, sydd bellach yn rhoi llawer mwy o bwysau ar gyflawni arbedion yn ystod tri mis olaf y flwyddyn (**Arddangos 4**).

25 Er y dylid ymdrechu i adfer y sefyllfa am weddill y flwyddyn, mae'r siart isod yn awgrymu bod angen dechrau cynllunio lefel weithredol er mwyn cyflawni arbedion o leiaf dri mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn ogystal â chynllunio lefel weithredol yn gynharach, mae angen newid diriaethol â phwyslais tuag at ddefnyddio a gwireddu arbedion. Mae angen cyfathrebu'r uchelgais arbedion hwn yn glir i arweinwyr y gwasanaeth gweithredol a rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod cymaint o fuddion â phosibl yn cael eu gwireddu.

**Arddangosyn 4—cynlluniau/targedau arbed mis ar ôl mis ym Mis 7 2022–23 £ mil**





Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol i Lywodraeth Cymru

## Mae perygl y gallai'r Bwrdd Iechyd ddiweddu mewn cylch diffyg ariannol blynyddol os nad yw'n mabwysiadu dull mwy effeithiol o gynllunio a chyflawni arbedion

26 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dangos ei fod wedi dylunio ac addasu ei gynlluniau arbed yn weddol effeithiol dros nifer o flynyddoedd. Mae ganddo hanes rhesymol o ran arbedion ac effeithlonrwydd hefyd (**Arddangosyn 5**). Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio adfer ar ôl tangyflawni ar yr arbedion a brofwyd yn ystod y pandemig, sy'n effeithio ar ei sefyllfa o 'ddiffyg' sylfaenol sydd wedi ei dwyn ymlaen i'r blynyddoedd dilynol. Hefyd, mae'r amgylchedd wedi newid. Mae'n amlwg bod ffactorau chwyddiant yn effeithio ar ynni ac mae costau'r gadwyn gyflenwi ehangach a chostau staffio yn cynyddu'r risg ariannol ymhellach.

**Arddangosyn 5: hanes y sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata y Bwrdd Iechyd, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a chynlluniau blynyddol

Noder: * Noda cynllun blynyddol 2021–22 fod arbedion rheolaidd sylweddol o £33 miliwn wedi eu cynllunio ar gyfer 2020–21 cyn effeithiau COVID-19 a leihaodd y disgwyliadau yn sylweddol o ran arbedion.

** Dengys y bar cysgodol yr arbedion y disgwylir eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn ym mis 7.

27 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022–25 y Bwrdd Iechyd yn nodi 'diffyg' sylfaenol agoriadol o £21 miliwn yn 2023–24. Ac yn ystod y flwyddyn hon, mae pwysau costau sy'n cynyddu a'r tangyflawniad mewn arbedion a ddisgwylir yn arwain at ragweld sefyllfa 'debygol' o ddiffyg o £37 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn awgrymu, heb ddyraniad ariannol ychwanegol neu fesurau lleihau costau lleol, y bydd y diffyg sylfaenol agoriadol yn cynyddu y flwyddyn nesaf.

28 Dyma ganlyniad diffyg ariannol eleni a rhagor o ddiffyg sylfaenol y flwyddyn nesaf:

- bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni llawer mwy o arbedion y flwyddyn nesaf, a allai olygu y bydd angen newid mwy o ran arbedion tymor byr a mesurau rheoli costau.
- bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni ei ofyniad statudol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer 2020–23, a bydd hyn yn parhau am o leiaf dwy flynedd arall wrth i'r diffyg aros dros y cyfnod treigl o dair blynedd. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai'n arwain at gymhwyso barn amodol ar reoleidd-dra.
- bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â pharatoi Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ar gyfer 2023–26.

29 Er ei fod yn uchelgeisiol yn ei nod o effeithlonrwydd ar sail trawsnewid, mae angen i'r Bwrdd Iechyd lunio cynlluniau arbed sy'n mynd i'r afael â'r risgiau i'r elw net ariannol. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn tybio y cyflawnir cyfleoedd arbed rheolaidd i leihau'r diffyg ariannol sylfaenol ar gyfer 2023–24 i £8 miliwn. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhagweld diffyg sylfaenol yn y dyfodol, sy'n edrych yn optimistaidd erbyn hyn. Heb ddyraniad ychwanegol, mae'n debygol y bydd angen i gynlluniau arbed fod yn fwy helaeth. Er bod angen parhau i ganolbwyntio ar gyflawni effeithlonrwydd ariannol ar sail trawsnewid, mae'n debyg y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu cynlluniau ehangach er mwyn lleihau costau ac ymatal costau rhag pwysleisio ymhellach yr angen am fwy o ymatebolrwydd i amgylchiadau sy'n newid.

# Nid yw'r dull o gyflawni effeithlonrwydd y gellir ei droi'n arian yn ddigon cryf ar hyn o bryd

## Ni ddefnyddiodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau arbed gweithredol mewn modd digon amserol i gyflawni ei arbedion sy'n rhyddhau arian i'w amserlenni a'i dargedau cychwynnol.

30 Canfu ein gwaith dystiolaeth gyfyngedig o waith paratoi effeithiol yn troi gofynion arbedion Cynllun Tymor Canolig Integredig lefel uchel yn gynlluniau arbed gweithredol y gellir eu defnyddio (**Argymhellion 2 a 3**). O'r rhai y gwnaethom gwrdd â nhw, roedd dealltwriaeth glir o'r arbedion y gofynnir amdanynt, ond â phwyslais ymhlith staff y Bwrdd Iechyd ar effeithlonrwydd cyffredinol ehangach drwy drawsnewid a rhai mesurau rheoli costau. Er bod staff gweithredol y Bwrdd Iechyd yn teimlo bod cyfleoedd arbedion yn bodoli ac y gweithiwyd tuag atynt, gwnaethom ganfod safiad optimistaidd, yn seiliedig yn rhannol ar berfformiad arbedion cadarnhaol yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae'n bosibl bod hyn wedi cyfyngu ar yr ymdeimlad o frys ar lefelau gweithredol yn ystod rhai chwarteri.

31 Ar y llaw arall, cyfrannodd diffyg dulliau cynlluniau arbed gweithredol cynnar at lai o hyder yn yr Adran Gyllid o ran cyflawni arbedion yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn. O ganlyniad i hynny, dechreuodd swyddogion adrodd cynnydd sylweddol mewn risg, o ran cyflawni arbedion yn gyffredinol ac o ran sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu. Nodwyd cyfleoedd effeithlonrwydd clir, megis lleihad o £9.8 miliwn mewn costau cyflog[2], ond nid yw'r cynlluniau arbed gweithredol wedi bod ar waith yn ddigonol i gefnogi cyflawni arbedion. Mae angen i'r trefniadau cynllunio arbedion lefel weithredol hyn ddechrau'n gynt, gyda mwy o fanylion ac i'w darparu'n gyflym. Byddai asesiad o'r gallu i gyflawni arbedion tymor byr a chanolig hefyd yn fuddiol i sicrhau bod modd gwireddu'r bwriad strategol yn llawn. Yn fyr,

[2] Adrodd am arbedion ariannol yn yr Adroddiad Monitro Misol—Mis 2.

mae angen i'r modd o gyflawni arbedion fod yn llawer mwy cadarn wrth symud ymlaen.

32 Ym mis Mai 2022 (Mis 2), datganodd y Bwrdd Iechyd 'risg ddifrifol' i fantoli'r cyfrifon ariannol. O ganlyniad i'r pryderon cynyddol hyn, gwnaeth y Tîm Gweithredol yr hyn a ganlyn:

- mabwysiadu dull 'trawsnewid mewnol' ym mis Mai 2022 i gyflymu gostyngiad mewn costau ariannol yn 2022–23;
- nodi meysydd pwyslais ar gyfer cyfleoedd lliniaru costau ac incwm yn rhan o'i adferiad mewnol.

Fodd bynnag, nid oedd camau 'trawsnewid' lliniarol ar waith ar adeg y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Gorffennaf, gydag adroddiadau yn nodi wedyn y bydd 'angen datblygu dulliau yn llawn a chyflwyno dewisiadau ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd'. Rydym yn deall, bryd hynny, fod trafodaethau 'trawsnewid' wedi dod yn eitem sefydlog yng nghyfarfod wythnosol y tîm Gweithredol. Hefyd, nododd sawl sesiwn gweithdy feysydd pwyslais a chyflwynwyd grwpiau 'gorchwyl a gorffen' i ddatblygu cynlluniau. O ystyried y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ac absenoldeb cynlluniau lefel gweithredol sydd wedi eu ffurfio'n dda, ein safbwynt ni yw bod y mesurau ychwanegol hyn yn briodol o ystyried yr amgylchiadau.

33 Fodd bynnag, dylid nodi bod staff y Bwrdd Iechyd y gwnaethom gwrdd â nhw wedi codi rhai pryderon yn ymwneud â'r dull 'trawsnewid'. Gwnaethant bwysleisio y byddai'r dull tymor byr yn cynyddu cyfran yr arbedion afreolaidd, gan gynyddu'r pwysau ariannol yn ystod blynyddoedd i ddod. Yn ein barn ni, mae'n bragmatig mabwysiadu dull trawsnewidiol a phwyslais tymor byrrach ar leihau costau nes bod modelau gwasanaeth yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

## Er bod y llinellau atebolrwydd cyllidebol cyffredinol ar gyfer cyflawni arbedion yn gymharol glir, mae angen dulliau atebolrwydd cryfach pan fo'r dasg o gyflawni arbedion oddi ar y trywydd iawn

34 Nodir cyfrifoldebau dros gyflawni arbedion ac effeithlonrwydd yng nghynllun dirprwyo y Bwrdd Iechyd ac fe'u cymhwysir trwy'r strwythurau sefydliadol a rheolaethol sefydledig. Yn gyffredinol, mae'r llinellau atebolrwydd hyn yn glir yn weithredol. O'r rhai y gwnaethom gwrdd â nhw, roedd staff y Bwrdd Iechyd yn ymddangos yn glir o gwmpas eu hatebolrwydd ariannol ffurfiol. Ond gwnaethant ddisgrifio hefyd fod angen cydbwyso eu hatebolrwydd ariannol â'u cyfrifoldebau ehangach dros sicrhau llesiant y staff (h.y., atal y staff rhag cael eu gorlethu), pwysau gwasanaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a phwysau ehangach. Dywedasant fod y blaenoriaethau hyn sy'n cystadlu wedi arwain at gyflawni arbedion yn arafach eleni.

35 Mae atebolrwydd yn dod yn fwy cymhleth wrth ystyried bod gan y Bwrdd Iechyd ddull matrics lle mae deiliaid cyllideb arbedion yn unol â'r strwythur ac arweinwyr rhaglen hefyd yn gyfrifol am arbedion (gan gynnwys ar gyfer trawsnewid cleifion

allanol). Er y gallem nodi cyfrifoldebau ariannol cyffredinol ar gyfer deiliaid cyllideb ac arweinwyr y rhaglen Cynllun Tymor Canolig Integredig, roedd eglurder rhannu risgiau pan na chyflawnir yr effeithlonrwydd yn llai clir. Er enghraifft, nid oedd yn glir pwy fyddai'n derbyn y cyfrifoldeb ariannol am fethu â chyflawni effeithlonrwydd y rhaglen Cynllun Tymor Canolig Integredig pan fo'r rhaglen oddi ar y trywydd iawn oherwydd na chyflawnwyd yr arbedion disgwyliedig wrth weithredu ar lefel gwasanaeth.

36 Yn ein hadroddiad asesu strwythuredig eleni, rydym yn tynnu sylw at yr her gynyddol o ran sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd a'r arbedion is na'r disgwyl a gyflawnwyd. Mae ein hadroddiad yn cynnwys sylwebaeth lefel uchel ar reolaethau a chynllun dirprwyo, ac o ganlyniad, rydym wedi argymell bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei Gynllun Dirprwyo er mwyn sicrhau ei fod yn amlinellu'n gryfach atebolrwydd dirprwyedig dros y sefyllfa gyllidebol a chyflawni effeithlonrwydd ariannol ar lefelau gweithredol ac islaw hynny.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio defnyddio'r strwythurau gweithredol presennol a strwythurau'r rhaglen fel modd o gorffori effeithlonrwydd yn y gwaith sefydliadol. Fodd bynnag, mae costau uwch a'r arbedion is na'r disgwyl a gyflawnwyd eleni yn awgrymu efallai y bydd angen dulliau atebolrwydd cryfach. Rydym yn deall bod y Bwrdd Iechyd hefyd yn ystyried ffurfio grŵp trawsnewidiad adfer ariannol pwrpasol i fonitro cynnydd, a allai gyflawni'r swyddogaeth hon yn rhannol.

## Mae 'galluogwyr' sefydliadol yn cefnogi'r dasg o nodi a chyflawni effeithlonrwydd, ond mae angen sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl

### Mae'r model partner busnes ariannol yn cefnogi gwelliant ariannol

38 Mae'r model partner busnes cyllid yn ennyn mwy o ymgysylltu ar reoli ariannol ac mae'n darparu cyswllt da rhwng gwasanaethau a chyllid corfforaethol. Cyfrifwyr ariannol yw'r partneriaid busnes ariannol, ac maent yn gyfrifol am gefnogi gwasanaethau, adrodd ariannol a darparu swyddogaeth ymgynghorol. Ar y cyfan, roedd y rhai y gwnaethom gwrdd â nhw yn ystod yr adolygiad yn gefnogol iawn o'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos hefyd nad yw'r trefniadau bob amser yn darparu'r ysgogiad ar gyfer gwelliant ariannol cyflym, sy'n awgrymu bod potensial i'w mireinio nhw.

### Mae dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth y Bwrdd Iechyd yn sbarduno agweddau o welliannau yn y gwasanaeth, ond mae angen i'r gwaith ddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau gwell ac yn cyfrannu at leihad yng nghostau presennol y gwasanaeth yn ogystal â chostau'r gwasanaeth yn y dyfodol

39 Yn gyflenwol i'r dull crynodeb, sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd prosesau technegol i raddau helaeth, mae'r Bwrdd Iechyd yn sbarduno ei ddull gofal iechyd

'sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau' sy'n seiliedig ar werth. Nod gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yw cyflawni canlyniadau gwell i gleifion am lai o gost. Gallai hyn fod drwy, ond heb fod yn gyfyngedig i gael gwared ar niwed, lleihau gordriniaeth a gweithdrefnau y mae eu heffeithiolrwydd clinigol yn gyfyngedig, neu fabwysiadu dulliau eraill neu ataliol.

40 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu gofal iechyd ar sail gwerthoedd fel dull allweddol o gyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor gan osod tri 'nod i'w cyflawni':

- **Nod 1: Trawsnewid drwy Lens Gwerth** sy'n cefnogi gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i ystyried dull sy'n seiliedig ar werth o drawsnewid gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwaith o amgylch trawsnewid cleifion allanol a chorffori trawsnewid digidol.
- **Nod 2: Gwreiddio diwylliant Gwerth**, gwella gwybodaeth, sgiliau, a phrofiad gan ddatblygu'r capasiti a'r gallu ar draws y sefydliad i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau.
- **Nod 3: Datblygu partneriaethau strategol a dulliau arloesol** o weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector a phartneriaid diwydiannol.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn llunio ei gynlluniau i ganolbwyntio ar feysydd gan gynnwys offthalmoleg, methiant y galon, gofal critigol, diabetes, gwasanaethau cyhyrysgerbydol a gofalu am yr henoed[3]. Mae adroddiad gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth blynyddol diweddar y Bwrdd Iechyd yn nodi cyflawniadau allweddol y llynedd. Mae'n canolbwyntio i raddau helaeth ar yr hyn a wnaed a sut y'i cyflawnwyd yn hytrach na dangos, yn bennaf, gwelliant mewn canlyniadau neu effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian. Dyrannwyd £2.9 miliwn i'r Bwrdd Iechyd, ac mae'n ei wario i helpu i gefnogi darpariaeth bellach. Mae ein gwaith yn awgrymu bod angen i'r rhaglen ddangos yr adenillion ar y buddsoddiad hwn drwy gynyddu'r pwyslais ar yr effaith ar y ddarpariaeth a sicrhau bod ei fuddsoddiad yn cyflawni lleihad mewn costau ac arbedion ystyrlon.

## Mae lle i gydlynu strwythurau arloesedd a gwelliant presennol y Bwrdd Iechyd yn well, a gallu i gefnogi'r broses o gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion gweithredol

42 Mae sawl adnodd arloesedd a gwelliant sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd. Mae'n buddsoddi mewn Swyddfa Rheoli Prosiectau i gefnogi newid i'r system ar raddfa er mwyn cyflawni gwelliant cynaliadwy rheolaidd a gwella'r defnydd o adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ail-lunio ei ddull gwelliant drwy 'Grŵp Arwain Systemau Iechyd', a gwelliant, arloesedd ac ymchwil a gwaith datblygu ehangach. Ar hyn o bryd, nid yw'r trefniadau hyn, gan gefnogi gwelliant, yn gwneud y gorau

[3] Noder bod meysydd pwyslais Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth ar gyfer 2022/23 yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn wahanol mewn rhai meysydd i'r rhai a nodir yn ei adroddiad Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth blynyddol diweddar.

o’r effeithlonrwydd ariannol nac yn gwireddu’r effeithlonrwydd ariannol sydd ei angen i helpu i roi’r Bwrdd Iechyd ar sail ariannol gynaliadwy (**Argymhelliad 4**). Roedd nifer o’r rhai y buom yn siarad â nhw yn rhan o’r adolygiad hwn yn teimlo y gallai agweddau ar waith presennol y grwpiau hyn gael eu cysoni’n well â’r blaenoriaethau arbedion ac effeithlonrwydd strategol, ac angen cryfach i’r Swyddfa Rheoli Prosiectau fod yn atebol am arbedion.

## Mae’r dull trawsnewid cleifion allanol yn gadarnhaol, ond mae angen cynyddu’r raddfa a’r cyflymder a dangos gostyngiad mewn costau ac arbedion ariannol sy’n ddiriaethol

43 Ystyriodd ein gwaith y cynnydd wrth gyflawni un o raglenni Cynllun Tymor Canolig Integredig allweddol y Bwrdd Iechyd sydd â’r nod o wella effeithlonrwydd, sef ei Raglen Trawsnewid Cleifion Allanol. Wrth adolygu hyn, gwnaethom ystyried y rhaglen yng nghyd-destun cyflawni effeithlonrwydd gwasanaethau a chyfraniad at arbedion sy’n rhyddhau arian.

44 Mae’r rhan fwyaf o ryngweithiadau rhwng cleifion â gofal eilaidd yn digwydd drwy glinigau cleifion allanol pan fo cleifion yn cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu neu eu croesgyfeirio o arbenigeddau clinigol eraill, a chleifion a welwyd yn dilyn diagnosis neu driniaeth gychwynnol yn rhan o adolygiad dilynol. O ystyried nifer cleifion allanol y Bwrdd Iechyd sy’n cael eu derbyn bob blwyddyn, mae potensial sylweddol i foderneiddio gwasanaethau ymhellach, dileu gwastraff a sbarduno effeithlonrwydd.

45 Mae Strategaeth Cleifion Allanol y Bwrdd Iechyd, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020, yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a lleihau derbyniadau diangen ar gyfer cleifion allanol. Yn allweddol i hyn, ceir model gofal hunangyfeiriedig megis dilyniad a gychwynnwyd gan y claf a Sylw yn ôl Symptomau a gefnogir gan dechnolegau digidol priodol. Mae’n ymddangos bod y pandemig wedi arwain at fabwysiadu clinigau cleifion allanol rhithwir a chyfathrebu electronig yn gyflymach. Ond ar yr un pryd, mae wedi effeithio ar ehangder a chyflymder y broses o gyflawni rhaglenni trawsnewid cleifion allanol y Bwrdd Iechyd a’r graddau y maent yn darparu effeithlonrwydd y gellir ei droi’n arian.

46 Mae gwybodaeth ddiweddar yn dangos y gallai effeithlonrwydd gwasanaethau helpu i gynyddu’r gyfradd prosesu cleifion, ond heb gyfrannu’n sylweddol at yr arbedion a gyflawnir. Efallai na fydd hyd yn oed rhai mesurau osgoi costau, megis lleihau niferoedd y cansladau gan glinigau neu gleifion, nad oes amheuaeth nad hynny yw’r peth iawn i’w wneud, yn rhyddhau effeithlonrwydd y gellir ei droi’n arian yn y tymor byr. Rydym yn disgwyl ei bod yn bosibl y bydd y mathau hyn o effeithlonrwydd yn cael eu lleihau gan alw cynyddol am wasanaethau. Ar y cyfan, mae’r dull a’r uchelgais o gyflawni gwell effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cleifion allanol yn glir. Ond mae angen i’r raddfa a’r cyflymder gynyddu ac mae angen pwyslais llawer cryfach ar sicrhau bod yr effeithlonrwydd hwnnw yn arwain at wella mynediad at restrau aros ac yn cyfrannu at wasanaethau sy’n gynaliadwy

yn ariannol. Yn hyn o beth, mae cyfle i rannu gwersi a ddysgwyd gan y mabwysiadwyr cynnar megis Gynaecoleg a Niwroleg yn ehangach.

# Er bod goruchwyliaeth resymol o ran cynllunio a chyflawni arbedion, mae angen nodi ac ymateb i'r risgiau ariannol yn ystod cam cynharach

## Ar ôl nodi risgiau ariannol, mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau yr ymatebir yn fwy cyflym er mwyn eu lliniaru nhw

47 Fel pob corff iechyd yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu risgiau ei gynlluniau arbed (sgôr Coch, Oren, Gwyrdd[4]), er mwyn penderfynu graddau'r risg o beidio â chyflawni. Ym Mis 1, nododd y Bwrdd Iechyd fod 78% o'i arbedion wedi eu dosbarthu'n 'oren'. Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod unrhyw gynlluniau oren yn troi'n gynlluniau gwyrdd (h.y., tebygolrwydd cryf o gyflawni) o fewn tri mis. Fodd bynnag, bedwar mis yn ddiweddarach, ym Mis 5, dywedodd y Bwrdd Iechyd fod 76% o'i arbedion yn dal i fod yn 'oren'. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â'i risgiau arbedion yn ddigon cyflym (**Argymhelliad 5**). Hefyd, er nad yw'n gwneud hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi unrhyw gynlluniau arbed coch yn ei adroddiad ariannol i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad er:

- bod arbedion 'tebygol' ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu diwygio o £26.2 miliwn i lawr i £17 miliwn (adroddwyd ym mis 9)
- bod llai o amser ar gael bellach i gyflawni cwantwm arbedion o fewn y flwyddyn ariannol; a
- bod adroddiad diweddaraf y pwyllgor yn tynnu sylw at y sefyllfa ariannol gyffredinol fel risg sylweddol iawn.

48 Adroddir ar y risg ariannol cyffredinol i'r Bwrdd yn agored. Trwy gydol y flwyddyn, adroddir y risg lefel uchel datganedig i'r sefyllfa ariannol gyffredinol yn briodol.

49 Serch hynny, ein safbwynt ni yw y dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei sefyllfa o ran y diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir yn fwy rheolaidd ar sail y sefyllfa ariannol hyd yn hyn a'i asesiad risg ei hun. Er i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei arbedion a ragwelir a'i risgiau, dim ond yn ystod Mis 6 y gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddiwygio ei sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o fantoli'r cyfrifon i ddiffyg 'tebygol' o £37 miliwn[5] (**Arddangosyn 6**). I uwch-reolwyr gweithredol sy'n rhedeg gwasanaethau sy'n profi pwysau dirfawr, efallai na fyddai realiti'r sefyllfa ariannol yn ymddangos mor ddifrifol pan fo'r bwrdd iechyd yn parhau i adrodd rhagolwg o fantoli'r cyfrifon bum

[4] Sgôr Coch Oren Gwyrdd—y broses o asesu a dosbarthu risgiau fel Coch, Oren neu Wyrdd.

[5] £32.6 miliwn fel y sefyllfa orau bosibl, £37 miliwn tebygol a £49 miliwn fel y sefyllfa waethaf o ran diffyg ariannol.

mis i mewn i'r flwyddyn. Nid yw'r dull adrodd presennol yn cefnogi'r negeseuon sydd eu hangen o amgylch yr 'ymdeimlad o frys' (**Argymhelliad 6**).

**Arddangosyn 6: y sefyllfa a ragwelir yn ystod blwyddyn 2022/23 (Mae testun coch yn dynodi gwerth negyddol) ym Mis 7**

| | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y sefyllfa yn ystod y flwyddyn** | | £4.9 miliwn | £8.4 miliwn | £14.3 miliwn | £17.4 miliwn | £22.8 miliwn | £25.7 miliwn |
| **Y rhagolwg a adroddwyd yn ffurfiol** | Mantoli'r cyfrifon | Mantoli'r cyfrifon | Mantoli'r cyfrifon | Mantoli'r cyfrifon | Mantoli'r cyfrifon | £37 miliwn | £37 miliwn |

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dda am nodi ei risgiau ariannol sy'n dod i'r amlwg megis pwysau costau eithriadol/ychwanegol. Mae hyn yn helpu i roi persbectif ar y sefyllfa ddeinamig y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei hwynebu ar hyn o bryd, gan nodi'n enwedig gostau ynni, cynnydd mewn costau eraill oherwydd chwyddiant a phwysau ehangach y system. Ond gyda risgiau ariannol deinamig, mae angen ymateb deinamig hefyd i leihau'r effaith yn y blynyddoedd cyfredol a'r dyfodol. Mae'n awgrymu y dylai cynllunio effeithlonrwydd a lleihad mewn costau fod yn broses barhaus a thros nifer o flynyddoedd, gyda'r gallu i gyflwyno gweithgaredd arbed i'r flwyddyn gyfredol os oes angen.

51 O ran risgiau'r rhaglen Cynllun Tymor Canolig Integredig, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder ynglŷn â ble mae risgiau'n cael eu cynnwys. Adroddir risgiau misol ar lefel y gyfarwyddiaeth yn hytrach na lefel y rhaglen. Dim ond gwybodaeth sylfaenol yr oedd yr adroddiadau'n eu cynnwys a byddai'n fuddiol hefyd cynnwys risgiau arbedion, eu dosbarthu a chamau lliniaru ar gyfer rhaglenni Cynllun Tymor Canolig Integredig. Byddai hefyd yn ddefnyddiol nodi sut mae risgiau arbedion yn cael eu rhannu rhwng y rhaglenni a'r cyfarwyddiaethau (**Argymhelliad 7**). I gefnogi hyn, mae angen gwell defnydd o offer rheoli gweledol gan gynnwys tracwyr trawsnewid gwasanaethau rhaglenni a thracwyr arbedion ar gyfer rhaglenni, er mwyn lleihau amwysedd ac ansicrwydd ynghylch cynnydd (**Argymhelliad 8**).

## Ymddengys fod y pwyllgor Bwrdd a Chyllid a Pherfformiad yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyflawni arbedion yn rhesymol, ond mae angen canolbwyntio'n fwy ar yr arbedion nad ydynt ar y trywydd iawn

52 Gwnaethom ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwylio'r rhaglen effeithlonrwydd ariannol. Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ill dau yn cael digon o wybodaeth am gyllid cyffredinol y Bwrdd Iechyd ac yn yr wybodaeth honno, rhoddir sylw lefel uchel i dargedau a rhaglenni arbed. Hefyd, mae'r Pwyllgor

yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a phapurau parhaus sy'n amlinellu cyfleoedd effeithlonrwydd ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys y diweddariad i'r crynodeb effeithlonrwydd, yn rhan o adolygiad effeithlonrwydd, a'i gynllun gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, lleihau cyflogau amrywiol a lleihau'r defnydd o asiantaethau.

53 Mae adrodd yn rhoi sicrwydd y byddai dulliau effeithlonrwydd, pe byddent yn cael eu darparu, yn helpu i gyflawni balans ariannol. Fodd bynnag, nodwyd cyferbyniad amlwg mewn gwahanol agweddau. Mae'r pwyllgor yn rhoi sylw gweddol dda i'r gwaith cynllunio effeithlonrwydd a'r dadansoddiad ategol cysylltiedig, ond rhoddir llai o bwyslais ar effaith y cynlluniau effeithlonrwydd hynny (**Argymhelliad 9**). Hefyd, mae angen sicrwydd cryfach i roi darlun cliriach a chysylltiad rhwng cynlluniau arbed, risgiau i gyflawni, a'r effaith gyffredinol wirioneddol ar y diffyg diwedd blwyddyn a ragwelir.

54 Er enghraifft, mae arbedion cyflog yn elfen sylweddol o gynllun adfer ariannol y Bwrdd Iechyd, ac yn y cynllun hwnnw, mae gofyniad i leihau costau asiantaeth. Ym mis Gorffennaf 2022, derbyniodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yr wybodaeth ddiweddaraf ar ei gynllun gweithredu i leihau'r defnydd o asiantaethau. Mae'r cynllun yn amlinellu 16 o gamau i fynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd a staff asiantaeth Nyrsio. Dosbarthwyd pob un o'r 16 o gamau hynny yn wyrdd ar y sgôr Coch, Oren, Gwyrdd, ac roeddent i fod i gael eu cyflawni rhwng mis Mehefin a mis Medi 2022. Ym mis Mehefin 2022, roedd y gwariant asiantaeth Nyrsio a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn yn £23.1 miliwn ac ym mis Medi ymddengys nad yw'r camau sydd â sgôr gwyrdd ond wedi cael effaith fach iawn ar y sefyllfa, gan leihau'r gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn i £22.8 miliwn. Mae hyn yng nghyd-destun gwariant cyffredinol ar staff asiantaeth sydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y 5 mlynedd ddiwethaf[6]. Ymhell o leihau, rhagwelir y bydd cynnydd o oddeutu 6.5% yn y gwariant ar asiantaethau rhwng y llynedd ac eleni (o £57.5 miliwn yn 2021–22 i £61 miliwn yn 2022–23). Rydym yn defnyddio hyn i ddangos yr angen i holi'r canlyniadau effeithlonrwydd yn amheus yn ystod y cam cynllunio ac i sicrhau bod yr effaith ar y sefyllfa ariannol gyffredinol h.y., y gwahaniaeth y mae'r cynlluniau hynny wedi ei wneud, yn cael ei hystyried yn briodol.

55 Mae angen i'r Bwrdd ystyried hefyd i ba raddau y mae'n blaenoriaethu 'effeithlonrwydd y gwasanaeth' o'i gymharu ag arbedion sy'n rhyddhau arian. Er enghraifft, gall y Bwrdd Iechyd gyflawni effeithlonrwydd trawsnewidiol i leihau nifer y gwelyau sydd eu hangen arno neu leihau'r staff sydd eu hangen. Ond yr her i'r Bwrdd Iechyd yw a ddylid cwtogi nifer y gwelyau a'i staff i wireddu ei nodau rhyddhau arian, neu ddefnyddio'r capasiti a ryddheir i wella perfformiad, er enghraifft drwy leihau ôl-groniad y rhestrau aros. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth

[6] Mae gwariant ar asiantaethau yn ddull staffio costus. Mae'r ffioedd cyffredinol yn cynnwys gorbenion asiantaeth, treth ac elfen cyflog y staff. Er bod angen defnyddio asiantaethau yn hyblyg i raddau, mae gorddibyniaeth sylweddol yn y Bwrdd Iechyd. £16.3 miliwn oedd gwariant Aneurin Bevan ar asiantaethau yn 2016–17; cynyddodd hyn i £57.5 miliwn yn 2021–22. Y rhagolwg cyfredol yw £61 miliwn.

Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff wella perfformiad y gwasanaeth, gan fynd i'r afael ag ôl-groniad y rhestrau aros a gwariant mewn dyraniad.

# Atodiad 1

## Ymateb y sefydliad

**Arddangosyn 7: cynllun gweithredu—i'w gwblhau pan fydd y Bwrdd Iechyd wedi paratoi ei ymateb y rheolwyr i'r argymhellion**

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Arbedion ariannol a chynllunio effeithlonrwydd | Edrych ar gynlluniau effeithlonrwydd o'r newydd i ailasesu eu potensial realistig o ryddhau arian cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Dylid ailflaenoriaethu cynlluniau yn ôl eu potensial i ryddhau arian. | Bydd nodi a chyflawni arbedion sy'n rhyddhau arian yn cael effaith uniongyrchol ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. | Do | Y Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Mae'r Bwrdd wedi sefydlu trefniadau adfer ariannol ychwanegol ar lefel y Bwrdd a gweithredol, gan gynnwys canolbwyntio'n barhaus ar nodi meysydd a all leihau costau.<br>Cryfheir hyn drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig i wneud cynnydd pellach o ran effeithlonrwydd cyffredinol, osgoi costau a chyfleoedd i leihau costau er mwyn cefnogi gwelliant i sefyllfa ariannol rheolaidd y Bwrdd Iechyd.<br>Bydd y Bwrdd yn ystyried sut i ganolbwyntio ar gynlluniau ac iddynt fuddiannau uwch wrth symud ymlaen. | 31 Mawrth 2023 |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Trefniadau cyflawni ariannol | Erbyn diwedd mis Ionawr 2023, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn paratoi'n gynharach arbedion lefel defnyddio/gwasanaeth i gyflawni rhaglenni effeithlonrwydd allweddol y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yn ddelfrydol, dylai'r dull cynllunio arbedion fod yn barhaus wrth symud ymlaen, er mwyn osgoi unrhyw fylchau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. | Bydd defnyddio cynlluniau arbedion yn gynharach / dull arbedion parhaus yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd arbedion yn cael eu gwireddu. | Do | Y Cyfarwyddwr Cyllid gyda Thîm Gweithredol<br><br>Darparu rhagor o fanylion i'r ymateb i A1 uchod. Mae'r tîm Gweithredol yn cynnal bwrdd adfer ariannol misol i nodi a monitro yr arbedion a gyflawnir ac mae'n cynnwys pwyslais parhaus ar nodi meysydd sy'n gallu lleihau costau.<br>Mae nodi cynlluniau arbed yn barhaus yn rhan o gynllun gweithredu cynllun adfer ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan ymgysylltu â thimau a gweithlu adrannol ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ogystal â chynlluniau dan arweiniad gweithredol. | 31 Mawrth 2023 |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A3 | Trefniadau cyflawni ariannol | Erbyn diwedd mis Ionawr 2023, sicrhau ymgysylltiad gwasanaeth gweithredol cynhwysfawr ac effeithiol â'r tîm sy'n paratoi'r crynodeb fel y gellir trosi'r cyfleoedd a nodir yn y crynodeb yn gynlluniau arbed y gellir eu cyflawni. | Gwell systemau ar gyfer nodi cynlluniau arbed y gellir eu cyflawni. | Do—mewn egwyddor. | Y Cyfarwyddwr Cyllid<br>Mae'r tîm cyllid wedi ymgysylltu â'r Bwrdd, yr Is-bwyllgorau, y tîm Gweithredol, rhaglenni trawsnewid, timau rhanbarthol a thimau corfforaethol yn rhan o'i gynllun gwaith arferol i ledaenu'r cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ar draws y sefydliad.<br>Oherwydd pwysau gweithredol, ni chyflawnwyd yr arbedion disgwyliedig drwy'r is-adrannau a'r rhaglenni trawsnewid yn ystod 2022/23.<br>O ganlyniad i hynny, derbynnir bod angen mwy o waith ymgysylltu i dderbyn cyfrifoldeb am y gwasanaethau, er mwyn datblygu'r cyfleoedd i wella effeithlonrwydd a chyflawni arbedion. | Parhau â'r ymgysylltu cyfredol |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Trefniadau cyflawni ariannol | Erbyn mis Chwefror 2023, cysoni'r effeithlonrwydd a'r arbedion a ddisgwylir yn y rhaglenni gwella Cynllun Tymor Canolig Integredig â rhaglen waith sy'n fwy cydgysylltiedig gan ddefnyddio'r galluogwyr allweddol gan gynnwys Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, y Tîm Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, y tîm Dyfodol Clinigol ac ymchwil a datblygu ehangach. | Cyflawni gwell arbedion / effeithlonrwydd ariannol drwy gydgysylltu yn well â galluogwyr y Bwrdd Iechyd. | Do | Y Cyfarwyddwr Cynllunio<br><br>Nod y cynllun ar gyfer 2022/23 oedd datblygu cynaliadwyedd ariannol a chynaliadwyedd y gwasanaeth, a chyflawni effeithlonrwydd drwy drawsnewid. Byddai hyn yn cael ei alluogi gan strwythur Swyddfa Rheoli Prosiectau sydd â thimau amlbroffesiynol yn gweithio gyda thimau gwasanaeth ar draws llwybrau i gyflawni gwelliant, mae hyn yn fwy cynhwysol na'r timau a ddyfynnwyd.<br>Oherwydd pwysau gweithredol, nid yw'r cynnydd wedi cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn ystod 2022/23, ond edrychir ar hyn eto i ystyried cymhwysiad ar gyfer 23/24 yn rhan o adolygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | 31 Mawrth 2023 |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A5 | Monitro a goruchwylio ariannol | Erbyn mis Chwefror 2023, cryfhau'r cynlluniau craffu ar arbedion yr asesir eu risgiau fel rhai sy'n gysylltiedig â chynlluniau oren neu goch (yn y dyfodol). Hefyd:<br>Sicrhau y cytunir ar dargedau arbedion ariannol ac amserlenni a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.<br>cryfhau effeithiolrwydd ymyrraeth gan reolwyr pan fo cynlluniau effeithlonrwydd oddi ar y trywydd iawn. | Bydd trefniadau monitro, sgorio risgiau a goruchwylio effeithiol yn gwella'r perfformiad effeithlonrwydd / yr arbedion a gyflawnir | Do | Y Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Datblygir cynlluniau arbedion â gwaith craffu drwy'r tîm Gweithredol, asesir eu risgiau, maent yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac fe'u hadroddir yn ffurfiol bob mis i'r tîm Gweithredol, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd.<br><br>Y Prif Swyddog Gweithredol<br>Cydnabyddir bod angen ailystyried a datblygu dull newydd o gytuno ar Arbedion a derbyn cyfrifoldeb ac ymyrraeth gan reolwyr; bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r dull llywodraethu diwygiedig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, drwy weithredoedd y cynllun adfer ariannol. | 31 Mawrth 2023 |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| A6 | Monitro a goruchwylio ariannol | Diweddaru sefyllfa y rhagolwg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn fwy rheolaidd ar sail lefel newidiol y risg i'r cyllid, yn ogystal â sefyllfa ariannol y flwyddyn hyd yma. | Sicrhau bod negeseuon allweddol ynghylch risgiau ariannol y Bwrdd Iechyd a'r sefyllfa a ragwelir yn cael eu cyfathrebu'n brydlon. | Do, mewn egwyddor | Y Cyfarwyddwr Cyllid<br>Nodir rhagolygon ariannol a risgiau, fe'u hadolygir, ac fe'u diweddерir yn barhaus gydag adroddiadau ffurfiol sydd wedi eu sefydlu ar gylch misol.<br>Mae 2022/23 yn parhau i fod yn flwyddyn cyfnewidiol ac ansicr iawn ac er na newidiodd y rhagolwg yn ffurfiol tan ganol y flwyddyn, cafodd y dadansoddiad risg ei ddiweddaru'n fisol ac roedd yn adlewyrchu parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg.<br>Bydd y broses hon yn parhau fel arfer da wrth symud ymlaen. | Cyfredol |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A7 | Monitro a goruchwylio ariannol | Erbyn mis Mawrth 2023, sicrhau bod eglurder o ran rhannu risgiau ariannol gweithredol (er enghraifft pan fo cyfrifoldebau cyfarwyddiaeth weithredol dros gyflawni arbedion a chyfrifoldebau rhaglen Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyflawni effeithlonrwydd yn gorgyffwrdd). | Rheoli risgiau ariannol yn well ar lefelau gweithredol. | Do | Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid<br>Bydd y dull o ymdrin â chyfrifoldeb ac atebolrwydd am arbedion yn cael ei ailystyried a'i sefydlu yn rhan o'r broses adfer ariannol a datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | 31 Mawrth 2023 |
| A8 | Monitro a goruchwylio ariannol | Erbyn mis Mawrth 2023, cryfhau'r defnydd o offer rheoli gweledol, gan gynnwys tracwyr trawsnewid gwasanaethau, tracwyr arbed a thracwyr sy'n gysylltiedig â risgiau ar gyfer pob rhaglen. Mae angen cyfleu'r wybodaeth perfformiad hon i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er mwyn cynyddu ymatebolrwydd. | Gwell ymatebolrwydd i wybodaeth am berfformiad, gan alluogi'r cynnydd i gael ei fonitro yn fwy effeithiol gyda thrawsnewid gwasanaethau, arbedion, a risg. | Do | Y Cyfarwyddwr Cyllid<br>Bydd y dull o adrodd mwy o arbedion gweledol yn gyson â'r ymateb i A7 uchod a sefydlwyd yn rhan o'r broses adfer ariannol a datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig. | 31 Mawrth 2023 |

| Cyf | Mater | Argymhelliad | Canlyniad/lles a ddymunir | Cytunwyd | Cyfrifoldeb AIB a chamau gweithredu | Dyddiad cwblhau |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| A9 | Monitro a goruchwylio ariannol | Erbyn diwedd Ionawr 2023, rhoi dulliau cryfach ar waith i fonitro'r arbedion a ddefnyddir/cyflawnir er mwyn deall yn well lle mae gwelliannau i wasanaethau yn cyflawni'r effeithlonrwydd angenrheidiol a'r gwelliant ariannol, a lle nad ydynt yn gwneud hynny. Yn rhan o hyn, sicrhau bod camau unioni amserol ac effeithiol. | Bydd monitro'r arbedion a ddefnyddir / cyflawnir yn well yn sicrhau gwelliant ariannol. | Do | Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid<br>Cydnabyddir bod angen ailystyried a datblygu dull newydd o gytuno ar Arbedion a derbyn cyfrifoldeb ac ymyrraeth gan reolwyr; bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r dull llywodraethu diwygiedig ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, drwy weithredoedd y cynllun adfer ariannol. | 31 Mawrth 2023 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.